**Pwyllgor Cyfle Cyfartal EOC-05-99(p.2)**

**Dyddiad**: 9 Rhagfyr 1999

**Amser**: 9.30am

**Lleoliad**: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl: Hyfforddi a briffio am ymwybyddiaeth cydraddoldeb ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ac yn benodol ar gyfer y sawl sy'n gwneud penodiadau cyhoeddus**

**Diben**

1. A chanddo swyddogaeth monitro ac archwilio, mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi gofyn am roi ystyriaeth a chanllawiau ar y ffordd orau i godi ymwybyddiaeth Aelodau'r Cynulliad o faterion cyfle cyfartal, gan dalu sylw yn benodol at y rhai sy'n gwneud penodiadau cyhoeddus.

**Crynodeb / Argymhellion**

2. Wrth geisio codi ymwybyddiaeth Aelodau'r Cynulliad mae angen amlwg amm sicrhau bod yr hyn a ddarperir yn berthnasol ac addas.

3. I gyfiawnhau hyn, ystyrir bod angen cael gwybod faint mae pob Aelod o'r Cynulliad yn ei wybod, wedi'i brofi ac a ydynt ar gael.

4. Yn ogystal, awgrymir na fyddai cyrsiau 'hyfforddi' cyfle cyfartal traddodiadol yn briodol at ddibenion y Cynulliad.

5. Argymhellir felly i'r Uned Polisi Cydraddoldeb:

- gyhoeddi holiadur byr i aelodau'r Cynulliad i gael gwybodaeth sylfaenol am wybodaeth a phrofiad Aelodau'r Cynulliad o ran cyfle cyfartal, am unrhyw angen am ddiweddaru hyfforddiant cydraddoldeb, a phryd y maent ar gael. Hyrwyddo'r broses ddarparu hyfforddiant priodol i Aelodau'r Cynulliad ar sail dadansoddiad yr holiaduron;

- ar y cyd â phartneriaid, datblygu nifer o fodwlau byr ymwybyddiaeth o gydraddoldeb (ar ffurf seminarau rhyngweithredol) gan ddefnyddio hyrwyddwyr allanol. Byddai'r modwlau hyn yn cynnwys sesiwn gyflwyno ac, yn flaenoriaeth, sesiwn am arferion da a thechnegau recriwtio a dethol – gweler paragraff 8 isod.

**Amserlen**

6. Mae’r papur wedi’i baratoi ar gais y pwyllgor a bydd angen i unrhyw weithredu a fyddai’n codi yn sgil yr argymhellion gael ei roi mewn cynllun gweithredu diwygiedig ac asesu ei gost pan fyddai’n gallu datblygu’r modwlau ymwybyddiaeth cydraddoldeb yn llawn.

**Cefndir**

7. Un o ganlyniadau cychwynnol yr archwilio sy’n cael ei wneud gan yr Uned Polisi Cydraddoldeb, a adroddwyd i’r Pwyllgor Cyfle Cyfartal, oedd yr ymateb cadarnhaol ynghylch darparu hyfforddiant a chanllawiau i godi’r lefel ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ymhlith swyddogion y Cynulliad. Awgrymodd y ddadl a ddigwyddodd yn y Pwyllgor yn sgil yr adroddiad hwn y gallai’r un peth fod yn gywir am Aelodau’r Cynulliad a gwnaed cais am roi ystyriaeth i sut y gellid hyfforddi a briffio i helpu Aelodau’r Cynulliad.

8. Cyfeiriwyd hefyd at angen briffio recriwtio a dethol priodol i Swyddogion ac Aelodau’r Cynulliad sy’n gwneud penodiadau cyhoeddus, gan gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth cydraddoldeb, fel rhag-ofyniad cyn eistedd ar banel dethol Penodiadau Cyhoeddus.

9. Yn sgil y trafodaethau hyn, gofynnwyd i’r Pwyllgor ystyried sut y gellir bodloni anghenion ‘hyfforddi’ cyffredinol Aelodau’r Pwyllgor orau.

**Cydymffurfio**

10. Mae’r materion a ystyriwyd yn cydymffurfio â goblygiadau’r Cynulliad wrth wneud ei ddyletswyddau o ran cyfle cyfartal i bawb, yn ei fusnes a’i swyddogaethau yn Adran 120 a 48 Deddf Llywodraeth Cymru.

11. Nid oes goblygiadau ariannol i argymhelliad (i). Ystyrir ar hyn o bryd a ellir gweithredu argymhelliad (ii) o gyllideb weinyddu bresennol y Cynulliad.

**Gwaith i’r Pwyllgor**

12. Gofynnwyd i’r Pwyllgor roi sêl ei fendith ar yr argymhellion uchod.

**Cysyllter â**

13. Charles Willie, yr Uned Polisi Cydraddoldeb